

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyllideb Atodol 2010-11 (A gyflwynwyd Chwefror 2011)

Chwefror 2011

Gosodwyd ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2010-11, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 8 Chwefror 2010.

Bwriedir i'r papur hwn fod o gymorth wrth graffu ar y Gyllideb Atodol. Mae'n cynnig golwg gyffredinol ar y newidiadau a gynigiwyd a manylion y newidiadau ym mhob portffolio ac mae'n cymharu'r rhain â'r hyn a geid yng Nghyllideb Atodol Flaenorol 2010-11, yn unol â'r hyn a gytunwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2010.

Mae'r newidiadau yn y cynlluniau gwario'n cael eu holrhain yn ôl hefyd i Gyllideb Derfynol 2010-11, yn unol â'r hyn a gytunwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2009. Nid yw dogfennaeth a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru'n cynnwys cymariaethau o'r fath.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyllideb Atodol 2010-11
(A gyflwynwyd Chwefror 2011)

Chwefror 2011

Dr Eleanor Roy

Rhif dogfen: 11/015

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Prif Bwyntiau

Gosodwyd ail gyllideb atodol blwyddyn ariannol 2010-11 ar 8 Chwefror 2011. Cyllideb weinyddol ei natur yw hon yn bennaf ac mae'n adlewyrchu nifer o drosglwyddiadau, newidiadau yn y llinell sylfaen a'r gostyngiadau a orfodwyd arnom gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Mai 2010. Bwriedir i'r papur hwn fod o gymorth wrth graffu ar y Gyllideb Atodol.

- Mae cyfanswm y gwariant a reolir (TME) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu £280.9 miliwn (1.8%) o'i gymharu â'r gyllideb atodol flaenorol; a £50.5 miliwn (0.3%) o'i gymharu â'r gyllideb derfynol.
- Mae cyfanswm y terfynau gwariant adrannol (DEL) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu £297.7 miliwn (1.9%) o'i gymharu â'r gyllideb atodol flaenorol; a £471.1 miliwn (3.1%) o'i gymharu â'r gyllideb derfynol.
- Mae'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth y Cynulliad wedi gostwng £16.7 miliwn (5.6%) o'i gymharu â'r gyllideb atodol flaenorol; a £420.6 miliwn (59.7%) o'i gymharu â'r gyllideb derfynol.

Cynnwys

1.	Golwg Gyffredinol ar Gyllideb Atodol 2010-11	1
1.1.	Dyraniadau'r DEL Refeniw a'r DEL cyfalaf.....	7
2.	Newidiadau yn y llinell sylfaen - hyblygrwydd diwedd blwyddyn a throsglwyddiadau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig	10
2.1.	Hyblygrwydd diwedd blwyddyn (EYF)	10
3.	Trosglwyddiadau o fewn adrannau Llywodraeth Cymru a rhyngddynt....	11
4.	Symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn.....	14
5.	Gostyngiadau gwario a orfodir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig	17
6.	Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol.....	18
7.	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	20
8.	Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	23
9.	Economi a Thrafnidiaeth.....	25
10.	Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	28
11.	Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	31
12.	Materion Gwledig	34
13.	Treftadaeth	36
14.	Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	38
15.	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	40

1. Golwg Gyffredinol ar Gyllideb Atodol 2010-11

Gosodwyd cynnig yr ail gyllideb atodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11 gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt AC) ar 8 Chwefror 2011.¹ Gyda'r gyllideb, cyflwynwyd dogfen naratif² a'r dyraniadau i'r prif grwpiau gwariant (MEGau).³ Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio'r gyllideb atodol flaenorol a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 13 Gorffennaf 2010.⁴ Dywed y naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol:

Natur weinyddol sydd i'r Gyllideb hon yn bennaf. Mae'n adlewyrchu ailflaenoriaethu a fu o fewn y portffolios ynghyd â nifer o drosglwyddiadau o fewn y gyllideb rhwng portffolios. Yn allweddol, mae hefyd yn cyflawni ein penderfyniad i ddod o hyd i'r holl ostyngiadau i'r gyllideb, a osododd Llywodraeth y DU arnom ym mis Mehefin 2010. Yn ogystal â hyn, mae'n darparu ar gyfer dyraniadau ychwanegol o'n cronfeydd wrth gefn. Mae'r dyraniadau hyn o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u hategu gan adnoddau o'r stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn, ac maent yn cynnwys dyraniadau o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.⁵

Ffigurau absoliwt yw'r ffigurau yn y papur hwn, gan mai at y flwyddyn ariannol gyfredol yn unig y mae'r ffigurau'n cyfeirio ac nid ydynt wedi cael eu haddasu ar gyfer chwyddiant o gwbl.

Mae'r tablau a ganlyn yn crynhoi'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb atodol bresennol o'u cymharu â'r hyn a gafwyd yng nghyllideb atodol flaenorol Mehefin 2010 a'r gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2009.

Mae [tabl 1](#) yn cynnig golwg gyffredinol ar gyfanswm y gwariant a reolir (TME).⁶

Mae [tabl 2](#) yn crynhoi cyfanswm dyraniadau'r terfynau gwariant adrannol (DEL).⁷

Mae [ffigur 1](#) yn rhoi manylion y newid canrannol yng nghyfanswm dyraniadau'r DEL i bob prif grŵp gwariant (MEG).

Mae [tabl 3](#) yn dangos dyraniadau'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME).⁸

¹ Llywodraeth Cymru, [Cynnig Ynghylch y Gyllideb Atodol 2010-11](#), Chwefror 2011 [cyrchwyd 11 Chwefror 2011]

² Lywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2010-11](#), Chwefror 2011 [cyrchwyd 11 Chwefror 2011]

³ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2010-11, Dyraniadau'r Prif Grwpiau Gwariant](#), Chwefror 2011 [cyrchwyd 11 Chwefror 2011]

⁴ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2010-11](#), Mehefin 2010. Mae modd gweld adroddiad y Pwyllgor Cyllid am y gyllideb atodol hon yma: [FIN\(3\)-10-R08 : Adroddiad ar Gyllideb Atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010-11 \(Mehefin 2010\)](#) ac mae modd gweld y cynnig a gymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn yma: [Cofnod y Trafodion 13 Gorffennaf 2010](#) [cyrchwyd 11 Chwefror 2011]

⁵ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2010-11](#), Chwefror 2011 tudalen 1 [cyrchwyd 11 Chwefror 2011]

⁶ **Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)** yw gwariant refeniw a chyfalaf y sector cyhoeddus ac mae'n cynnwys terfynau gwariant adrannol (DEL) a gwariant a reolir yn flynyddol (AME).

⁷ **Terfynau gwariant adrannol (DEL)** - cyfanswm terfynau gwariant adrannau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig dros gyfnod penodedig, ac eithrio eitemau sy'n dilyn y galw ac eitemau eithriadol o gyfnewidiol. Cynllunnir DELau a'u pennu yn ystod Adolygiadau o Wariant, ac fe'u rhennir yn gyllidebau refeniw a chyfalaf. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb ei neilltuo ac mae'n rhoi rhyddid llwyr i Lywodraeth Cymru ddewis ei blaenoriaethau gwario (gelwir hyn yn 'gyllideb wedi'i chlustnodi')

Wrth edrych ar dablau 1 i 3, gellir gweld bod:

- **TME a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £280.9 miliwn** (1.8%) o'i gymharu â'r gyllideb atodol flaenorol; a £50.5 miliwn (0.3%) o'i gymharu â'r gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2009.
- **Cyfanswm y DEL a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £297.7 miliwn** (1.9%) o'i gymharu â'r gyllideb atodol flaenorol; a £471.1 miliwn (3.1%) o'i gymharu â'r gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2009.
- **Cyfanswm yr AME a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru wedi gostwng £16.7 miliwn** (5.6%) o'i gymharu â'r gyllideb atodol flaenorol; a £420.6 miliwn (59.7%) o'i gymharu â'r gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2009.

O'i gymharu â'r gyllideb atodol ym mis Mehefin, dyma'r newidiadau mwyaf yng nghyfanswm dyraniadau'r DEL i MEGau Llywodraeth Cymru:

- MEG Treftadaeth a gafodd y cynnydd canrannol mwyaf: 14.7%, sef £23.1 miliwn yn ychwanegol.
- MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd y cynnydd nominal mwyaf: £161.4 miliwn, sef 2.6%.
- MEG Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad a gafodd y gostyngiad canrannol a nominal mwyaf: 16.8%, sef gostyngiad o £12.1 miliwn.

Drwyddi draw, mae cyfanswm y DEL a ddyrennir yn y gyllideb atodol bresennol yn golygu bod £297.7 miliwn yn ychwanegol (sef cynnydd o 1.9% o'i gymharu â'r gyllideb atodol flaenorol) wedi'i ddyrannu i adrannau Llywodraeth Cymru. Dengys [ffigur 2](#) sut mae'r dyraniad hwn wedi'i ddsbarthu ymhlith y portffolios.

⁸ Mae gwariant a reolir yn flynyddol (AME) - fel rheol yn llai rhagweladwy ac yn anos ei reoli na gwariant o fewn y DEL ac felly nid yw'n cael ei gyfyngu gan derfynau amflwyddyn llym. Yn hytrach, cynhelir trafodaethau yn ei gylch gyda Thrysorlys EM bob blwyddyn. Bydd AME yn dilyn y galw a rhaid ei ddyrannu i'r rhaglen y cafodd ei neilltuo iddi. Gellir tynnu rhagor o AME i lawr gan Drysorlys EM os oes gofyn, a bydd y Trysorlys yn ei dro'n adhawlio unrhyw swm sydd heb ei wario.

Tabl 1: Cyfanswm y gwariant a reolir ym mloc Cymru

Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Cyfanswm Cyllideb Derfynol 10-11 (Rhag 2009)	Cyllideb Atodol 10-11 (Mehefin 2010)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2010)		Cyllideb Atodol 10-11 (Chwef 2011)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol (Chwef 2011)		Newid o'r Gyllideb Atodol (Meh 2010) i'r Gyllideb Atodol (Chwef 2011)	
	£000s	£000oedd	£000oedd	y cant	£000oedd	£000oedd	y cant	£000oedd	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,184,029	6,400,345	216,316	3.5	6,613,084	429,055	6.9	212,739	3.3
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	4,515,911	4,476,236	-39,675	-0.9	4,468,837	-47,074	-1.0	-7,399	-0.2
Economi a Thrafnidiaeth	1,627,737	1,023,107	-604,630	-37.1	1,051,695	-576,042	-35.4	28,588	2.8
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	2,051,382	2,152,635	101,253	4.9	2,185,596	134,214	6.5	32,961	1.5
Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	639,652	788,273	148,621	23.2	793,649	153,997	24.1	5,376	0.7
Materion Gwledig	153,136	142,765	-10,371	-6.8	133,899	-19,237	-12.6	-8,866	-6.2
Treftadaeth	192,077	159,442	-32,635	-17.0	182,542	-9,535	-5.0	23,100	14.5
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	55,129	71,729	16,600	30.1	59,643	4,514	8.2	-12,086	-16.8
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	397,198	371,304	-25,894	-6.5	377,828	-19,370	-4.9	6,524	1.8
Cyfanswm dyraniadau adrannol TME	15,816,251	15,585,836	-230,415	-1.5	15,866,773	50,522	0.3	280,937	1.8
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn (hawdd eu troi'n arian parod)	156,700	161,819	5,119	3.3	0	-156,700	-100.0	-161,819	-100.0
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn (nad ydynt yn arian parod)	69,183	0	-69,183	-100.0	237	-68,946	-99.7	237	..
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn a gedwir ar gyfer y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol	341,078	27,819	-313,259	-91.8	0	-341,078	-100.0	-27,819	-100.0
Comisiwn y Cynulliad	48,973	46,727	-2,246	-4.6	46,727	-2,246	-4.6	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,047	5,047	0	0.0	5,047	0	0.0	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,208	4,166	-42	-1.0	4,223	15	0.4	57	1.4
Taliadau Uniongyrchol	675	675	0	0.0	675	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm o fewn TME Cymru	16,442,115	15,832,089	-610,026	-3.7	15,923,682	-518,433	-3.2	91,593	0.6


Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar sail [Cyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Tabl 2: Cyfanswm y DEL ym mloc Cymru

Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Cyfanswm Cyllideb Derfynol 10-11 (Rhag 2009)	Cyllideb Atodol 10-11 (Mehefin 2010)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2010)		Cyllideb Atodol 10-11 (Chwef 2011)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol (Chwef 2011)		Newid o'r Gyllideb Atodol (Meh 2010) i'r Gyllideb Atodol (Chwef 2011)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	y cant	£000oedd	£000oedd	y cant	£000oedd	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,094,180	6,281,397	187,217	3.1	6,442,809	348,629	5.7	161,412	2.6
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	4,502,328	4,464,559	-37,769	-0.8	4,454,414	-47,914	-1.1	-10,145	-0.2
Economi a Thrafnidiaeth	1,153,970	981,705	-172,265	-14.9	997,293	-156,677	-13.6	15,588	1.6
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	1,875,784	1,949,237	73,453	3.9	2,070,521	194,737	10.4	121,284	6.2
Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	717,652	865,273	147,621	20.6	870,625	152,973	21.3	5,352	0.6
Materion Gwledig	153,136	142,765	-10,371	-6.8	133,899	-19,237	-12.6	-8,866	-6.2
Treftadaeth	162,493	157,384	-5,109	-3.1	180,484	17,991	11.1	23,100	14.7
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	55,129	71,729	16,600	30.1	59,643	4,514	8.2	-12,086	-16.8
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	397,198	371,304	-25,894	-6.5	373,328	-23,870	-6.0	2,024	0.5
Cyfanswm dyraniadau Adrannol DEL	15,111,870	15,285,353	173,483	1.1	15,583,016	471,146	3.1	297,663	1.9
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn (hawdd eu troi'n arian parod)	156,700	161,819	5,119	3.3	0	-156,700	-100.0	-161,819	-100.0
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn (nad ydynt yn arian parod)	69,183	0	-69,183	-100.0	237	-68,946	-99.7	237	..
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn	341,078	27,819	-313,259	-91.8	0	-341,078	-100.0	-27,819	-100.0
Comisiwn y Cynulliad	48,973	46,227	-2,746	-5.6	46,227	-2,746	-5.6	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,047	5,047	0	0.0	5,047	0	0.0	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,208	4,166	-42	-1.0	4,187	-21	-0.5	21	0.5
Taliadau Uniongyrchol	675	675	0	0.0	675	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm o fewn DEL Cymru	15,737,734	15,531,106	-206,628	-1.3	15,639,389	-98,345	-0.6	108,283	0.7


Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar sail [Cyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Ffigur 1: Newid canrannol yng nghyfanswm y DEL i bob MEG



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar sail [Cyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Ffigur 2: Canran y DEL ychwanegol a ddyrennir i bob MEG



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar sail [Cyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Tabl 3: Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)

Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Cyfanswm Cyllideb Derfynol 10-11 (Rhag 2009)	Cyllideb Atodol 10-11 (Mehefin 2010)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2010)		Cyllideb Atodol 10-11 (Chwef 2011)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol (Chwef 2011)		Newid o'r Gyllideb Atodol (Meh 2010) i'r Gyllideb Atodol (Chwef 2011)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	y cant	£000oedd	£000oedd	y cant	£000oedd	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	89,849	118,948	29,099	32.4	170,275	80,426	89.5	51,327	43.2
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	13,583	11,677	-1,906	-14.0	14,423	840	6.2	2,746	23.5
Economi a Thrafnidiaeth	473,767	41,402	-432,365	-91.3	54,402	-419,365	-88.5	13,000	31.4
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	175,598	203,398	27,800	15.8	115,075	-60,523	-34.5	-88,323	-43.4
Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	-78,000	-77,000	1,000	-1.3	-76,976	1,024	-1.3	24	0.0
Treftadaeth	29,584	2,058	-27,526	-93.0	2,058	-27,526	-93.0	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	0	0	0	..	4,500	4,500	..	4,500	..
Cyfanswm cyllideb adrannol AME	704,381	300,483	-403,898	-57.3	283,757	-420,624	-59.7	-16,726	-5.6
Comisiwn y Cynulliad	0	500	500	-	500	500	-	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	0	0	0.0	-	36	36	-	36	-
Cyfanswm cyllideb AME	704,381	300,983	-403,398	-57.3	284,293	-420,088	-59.6	-16,690	-5.5

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar sail [Cyllidebau](#) Llywodraeth Cymru

1.1. *Dyraniadau'r DEL Refeniw a'r DEL cyfalaf*

Dengys [tabl 4](#) a [thabl 5](#) y newidiadau yn nyraniadau'r DEL refeniw a'r DEL cyfalaf, yn y drefn honno. O'r rhain, gellir gweld, o'i gymharu â chyllideb atodol Mehefin 2010 bod:

- **Y DEL refeniw a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £190.1 miliwn (1.4%) o'i gymharu â'r gyllideb atodol flaenorol; a £124.8 miliwn (0.9%) o'i gymharu â'r gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2009.**
- **Y DEL cyfalaf a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £107.6 miliwn (6.5%) o'i gymharu â'r gyllideb atodol flaenorol; a £346.4 miliwn (24.6%) o'i gymharu â'r gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2009.**

O'i gymharu â'r gyllideb atodol ym mis Mehefin, dyma'r newidiadau mwyaf yn nyraniadau'r DEL refeniw i MEGau Llywodraeth Cymru:

- MEG Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a gafodd y cynnydd canrannol mwyaf yn y DEL refeniw: 6.1%, sef £104.5 miliwn yn ychwanegol.
- MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd y cynnydd nominal mwyaf yn y DEL refeniw: £147.7 miliwn, sef cynnydd o 2.5%.
- MEG Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad a gafodd y gostyngiad canrannol mwyaf yn y DEL refeniw: 14.1%, sef gostyngiad o £7.1 miliwn.
- MEG Economi a Thrafnidiaeth a gafodd y gostyngiad nominal mwyaf yn y DEL refeniw: £31.2 miliwn, sef gostyngiad o 5.2% .

O'i gymharu â'r gyllideb atodol ym mis Mehefin, dyma'r newidiadau mwyaf yn nyraniadau'r DEL cyfalaf i MEGau Llywodraeth Cymru:

- MEG Treftadaeth a gafodd y cynnydd canrannol mwyaf yn y DEL cyfalaf: gan fwy na dyblu'r dyraniad blaenorol, gyda £24.7miliwn yn ychwanegol.
- MEG Economi a Thrafnidiaeth a gafodd y cynnydd nominal mwyaf yn y DEL cyfalaf: £46.8 miliwn, sef cynnydd o 12.3%.
- MEG Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad a gafodd y gostyngiad mwyaf yn y DEL cyfalaf, a hynny o ran canran ac o ran swm nominal, sef gostyngiad o 23.3%, neu £5 miliwn.

Tabl 4: Y DEL Refeniw

Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Cyfanswm Cyllideb Derfynol 10-11 (Rhag 2009)	Cyllideb Atodol 10-11 (Mehefin 2010)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2010)		Cyllideb Atodol 10-11 (Chwef 2011)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol (Chwef 2011)		Newid o'r Gyllideb Atodol (Meh 2010) i'r Gyllideb Atodol (Chwef 2011)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	y cart	£000oedd	£000oedd	y cart	£000oedd	y cart
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	5,797,568	5,877,085	79,517	1.4	6,024,754	227,186	3.9	147,669	2.5
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	4,424,070	4,401,464	-22,606	-0.5	4,391,319	-32,751	-0.7	-10,145	-0.2
Economi a Thrafnidiaeth	722,958	601,965	-120,993	-16.7	570,751	-152,207	-21.1	-31,214	-5.2
Plant, Addysg, Dysgu GydoI Oes a Sgiliau	1,692,892	1,705,445	12,553	0.7	1,809,986	117,094	6.9	104,541	6.1
Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	369,094	383,880	14,786	4.0	379,589	10,495	2.8	-4,291	-1.1
Materion Gwledig	136,407	126,036	-10,371	-7.6	120,170	-16,237	-11.9	-5,866	-4.7
Treftadaeth	147,371	138,962	-8,409	-5.7	137,412	-9,959	-6.8	-1,550	-1.1
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	54,704	50,304	-4,400	-8.0	43,218	-11,486	-21.0	-7,086	-14.1
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	361,165	355,771	-5,394	-1.5	353,795	-7,370	-2.0	-1,976	-0.6
Cyfanswm dyraniadau Adrannol DEL	13,706,229	13,640,912	-65,317	-0.5	13,830,994	124,765	0.9	190,082	1.4
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn (hawdd eu troi'n arian parod)	156,700	161,819	5,119	3.3	0	-156,700	-100.0	-161,819	-100.0
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn (nad ydynt yn arian parod)	69,183	0	-69,183	-100.0	237	-68,946	-99.7	237	..
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0
Comisiwn y Cynulliad	48,198	45,452	-2,746	-5.7	43,852	-4,346	-9.0	-1,600	-3.5
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,047	5,047	0	0.0	5,047	0	0.0	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,745	3,703	-42	-1.1	3,724	-21	-0.6	21	0.6
Taliadau Uniongyrchol	675	675	0	0.0	675	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm o fewn DEL Cymru	13,989,777	13,857,608	-132,169	-0.9	13,884,529	-105,248	-0.8	26,921	0.2

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar sail [Cyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Tabl 5: Y DEL Cyfalaf

Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Cyfanswm Cyllideb Derfynol 10-11 (Rhag 2009)	Cyllideb Atodol 10-11 (Mehefin 2010)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2010)		Cyllideb Atodol 10-11 (Chwef 2011)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol (Chwef 2011)		Newid o'r Gyllideb Atodol (Meh 2010) i'r Gyllideb Atodol (Chwef 2011)	
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	y cant	£000oedd	£000oedd	y cant	£000oedd	y cant
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	296,612	404,312	107,700	36.3	418,055	121,443	40.9	13,743	3.4
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	78,258	63,095	-15,163	-19.4	63,095	-15,163	-19.4	0	0.0
Economi a Thrafnidiaeth	431,012	379,740	-51,272	-11.9	426,542	-4,470	-1.0	46,802	12.3
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	182,892	243,792	60,900	33.3	260,535	77,643	42.5	16,743	6.9
Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	348,558	481,393	132,835	38.1	491,036	142,478	40.9	9,643	2.0
Materion Gwledig	16,729	16,729	0	0.0	13,729	-3,000	-17.9	-3,000	-17.9
Treftadaeth	15,122	18,422	3,300	21.8	43,072	27,950	184.8	24,650	133.8
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	425	21,425	21,000	4941.2	16,425	16,000	3764.7	-5,000	-23.3
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	36,033	15,533	-20,500	-56.9	19,533	-16,500	-45.8	4,000	25.8
Cyfanswm dyraniadau Adrannol DEL	1,405,641	1,644,441	238,800	17.0	1,752,022	346,381	24.6	107,581	6.5
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn (hawdd eu troi'n arian parod)	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn (nad ydynt yn arian parod)	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn	341,078	27,819	-313,259	-91.8	0	-341,078	-100.0	-27,819	-100.0
Comisiwn y Cynulliad	775	775	0	0.0	2,375	1,600	206.5	1,600	206.5
Archwilydd Cyffredinol Cymru	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	463	463	0	0.0	463	0	0.0	0	0.0
Taliadau Uniongyrchol	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm o fewn DEL Cymru	1,747,957	1,673,498	-74,459	-4.3	1,754,860	6,903	0.4	81,362	4.9

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar sail [Cyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

2. Newidiadau yn y llinell sylfaen - hyblygrwydd diwedd blwyddyn a throsglwyddiadau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Fel y gwelir yn [nhabl 2](#) mae cyfanswm y DEL yn y bloc wedi cynyddu £108.3 miliwn. Nifer o newidiadau yn y llinell sylfaen sy'n gyfrifol am y cronfeydd ychwanegol hyn, fel a ganlyn:

- Tynnu £227miliwn i lawr o'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn (EYF)⁹, sef £102.5 miliwn refeniw a £124.5 miliwn cyfalaf;
- Dychwelyd £6.1 miliwn i Drysorlys EM yn sgil newidiadau technegol i'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes;
- Trosglwyddo £0.2 miliwn oddi wrth Weinyddiaeth Cyfiawnder Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer gofal ieched mewn carchardai;
- Tynnu £50 miliwn i lawr oddi wrth Drysorlys EM ar gyfer llog ar fenthyciadau myfyrwyr (dyraniad untro nad yw'n arian parod¹⁰ yw hwn);
- Gwario £162.5 miliwn yn llai yn unol â gofynion Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
- Camddatgan swm o £0.3 miliwn nad yw'n arian parod yng nghyllideb atodol blaenorol mis Mehefin 2010.

Ynghyd â'r dyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn (cyfanswm o £189.6 miliwn) ac addasiadau eraill i'r bloc (gostyngiad o £0.26 miliwn drwyddo draw), mae hyn yn rhoi'r £297.7 miliwn ychwanegol at gyfanswm y DEL a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru.

2.1. *Hyblygrwydd diwedd blwyddyn (EYF)*

Fel y nodir uchod, mae'r gyllideb atodol yn cyfeirio at gyfanswm EYF o £227 miliwn a dynnir i lawr oddi wrth Drysorlys EM. Yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2010¹¹, cyhoeddwyd mai bwriad y Llywodraeth honno oedd ddiddymu'r cynllun EYF ddiwedd 2010-11, gan gynnwys yr holl stociau a oedd wedi cronni.

Ar 10 Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt AC) ddatganiad yn sôn am fanylion yr ohebiaeth ddiweddaraf â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ynglŷn â'r stoc EYF sy'n weddill ar gyfer Gymru. Yn ôl y datganiad,

⁹ **Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (EYF)** - mecanwaith i drosglwyddo darpariaeth DEL sydd heb ei gwario o un flwyddyn i flynyddoedd wedyn. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w gweld yn Hysbysiad Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: [Hyblygrwydd diwedd blwyddyn](#). [cyrchwyd 11 Chwefror 2011]

¹⁰ **Nad ydynt yn arian parod** - eitemau a gynhwysir mewn cyllidebau er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau, hyd yn oed pan nad oes cysylltiad uniongyrchol â'r llif arian yn y cyfnod dan sylw. Ni fydd byth angen taliad arian parod ar gyfer yr eitemau hyn mewn gwirionedd, neu ni fydd taliadau arian parod ond yn codi ymhen blynnyddoedd (e.e. darpariaethau). Costau lle nad oes trafodiad arian parod ond sydd wedi'u cynnwys mewn cyllidebau a chyfrifon er mwyn sefydlu gwir gost yr holl adnoddau a ddefnyddir.

¹¹ Trysorlys EM, [Adolygiad o Wariant 2010](#), Hydref 2010 [cyrchwyd 11 Chwefror 2011] (Saesneg yn unig)

gwerth y stociau a oedd yn weddill oedd oddeutu £385 miliwn ac aeth rhagddo i ddweud:

I wrote to the Chief Secretary on 11 January, requesting that all of our accumulated stocks of EYF be released. The Chief Secretary replied to my letter on 9 February but he has refused to allow the release of our accumulated stocks, with the implication that these stocks will now be written off.¹²

Dyweddodd hefyd ei bod yn fwriad gan y Gweinidog ysgrifennu llythyr arall, ar y cyd â Gweinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon, at y Canghellor, yn ailadrodd y cais am gael rhyddhau stociau EYF. Mae Datganiad ar y Cyd gan y Gweinyddiaethau Datganoledig eisoes wedi'i anfon at y Canghellor ar 2 Chwefror 2011, yn galw ar i Lywodraeth y Deyrnas Unedig newid y penderfyniad a gymerodd ar ei liwt ei hun i ddiddymu stociau EYF sydd wedi cronni.¹³

3. Trosglwyddiadau o fewn adrannau Llywodraeth Cymru a rhyngddynt

Mae nifer o drosglwyddiadau wedi bod rhwng y prif grwpiau gwariant (MEGau), ac mae manylion y rhain i'w gweld yn [nhabl 6](#). Nid yw'r trosglwyddiadau hyn yn cael unrhyw effaith net ar y dyraniadau cyffredinol.

Yn ogystal â'r symudiadau hyn, mae nifer o drosglwyddiadau wedi bod hefyd o fewn MEGau, ac mae rhai o'r rhain wedi arwain at **drosglwyddo £5.85 miliwn o'r refeniw i'r cyfalaf** fel a ganlyn:

- Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai - trosglwyddo £1.2 miliwn o'r refeniw i'r cyfalaf;
- Treftadaeth - trosglwyddo £650k o'r refeniw i'r cyfalaf;
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - trosglwyddo £4 miliwn o'r refeniw i'r cyfalaf.

¹² Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb), *Y Llythyr diweddaraf gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch hyblygrwydd diwedd blwyddyn*, Un o ddatganiadau ysgrifenedig y Cabinet, 10 Chwefror 2011 – dim dolen ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

¹³ [Datganiad ar y cyd gan y Gweinyddiaethau Datganoledig](#) i Ganghellor y Trysorlys, 2 Chwefror 2011 [cyrchwyd 11 Chwefror 2011]

Tabl 6: Trosglwyddiadau rhwng MEGau

O	Swm (£000oedd)	I	Swm (£000oedd)	Natur	Disgrifiad
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; SPA/cam gweithredu Cyflawni'r GIG	-1,442	PADGOS: SPA Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Cydol Oes Cam gweithredu Addysg Uwch	1,442	Refeniw	Ar gyfer trosglwyddo myfyrwyr yng nghyswllt Rhaglen MB i Raddegion, a noddir gan Gyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru.
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; SPA/cam gweithredu Cyflawni'r GIG	-1,402	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau Gweinyddu Canolog Eraill: Cam gweithredu Buddsoddi i Arbed	1,402	Refeniw	Yng nghyswllt adennill grantiau.
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau Gweinyddu Canolog Eraill: Cam gweithredu Buddsoddi i Arbed	-549	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; SPA/cam gweithredu Cyflawni'r GIG	549	Refeniw	Ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd.
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: SPA Cymunedau Diogelach: Cam gweithredu Cam-drin domestig	-194	Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: SPA Tai: Cam gweithredu galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol	194	Refeniw	Dim manylion ar gael.
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: SPA Cymunedau Diogelach: Cam gweithredu Cam-drin domestig	-141	Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: SPA Tai: Cam gweithredu mynd i'r afael â digartrefedd	141	Refeniw	Dim manylion ar gael.
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: SPA Cefnogi Cymunedau a Phobl: Cam gweithredu Cymunedau yn Gyntaf	-99	Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: SPA Adfywio: Cam gweithredu Rhoi Ardaloedd Adfywio Strategol ar Waith	99	Refeniw	Dim manylion ar gael.
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: SPA Polisi Llywodraeth Leol: Cam gweithredu Partneriaethau Llywodraeth Leol	-150	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau a Chyflogau Staff: Cam Gweithredu Costau Staff	150	Refeniw	Dim manylion ar gael.
Economi a Thrafnidiaeth: SPA/cam gweithredu Rhyngwladoli Economi Cymru	-475	Materion Gwledig: SPA Diwydiant Bwyd, Pysgod a Diod Cymru: Cam gweithredu datblygu a marchnata sector bwyd a diod Cymru	475	Refeniw	Ar gyfer cymorth masnachu rhyngwladol i ddiwydiant bwyd a diod Cymru.
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau Gweinyddu Canolog Eraill: Cam gweithredu Buddsoddi i Arbed	-4,160	Economi a Thrafnidiaeth: Cam gweithredu Cyfanredu Band Eang y Sector Cyhoeddus	4,160	Refeniw	Yng nghyswllt prosiect Cysylltedd Gwent.
Economi a Thrafnidiaeth: SPA Busnesau - Cychwyn, Tyfu, Ffynnu a Buddsoddi: Cam gweithredu Darparu Cymorth Ariannol i Fusnesau	-3,500	Treftadaeth: SPA Twristiaeth: Cam gweithredu Datblygu Profiad yr Ymwelydd	3,500	Cyfalaif	Ar gyfer Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth
Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: SPA Tai: Cam gweithredu cynyddu'r cyflenwad tai a'r dewis sydd ar gael	-465	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau a Chyflogau Staff: Cam Gweithredu Costau Staff	465	Refeniw	Yng nghyswllt trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o Swyddfa Archwilio Cymru i Lywodraeth Cymru.
Materion Gwledig: SPA Polisiau Gwledig Ewrop: Cam gweithredu cyflawni'r rhaglenni o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig	-100	Treftadaeth: SPA/cam gweithredu cadw, gwarchod, cynnal a hybu mynediad at yr amgylchedd hanesyddol	100	Refeniw	Ar gyfer gwaith datblygu System Gwybodaeth Ddaearyddol er mwyn rhoi Glastir ar waith a'i gyflawni.
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad: SPA/cam gweithredu Gallu ym maes Arwain a Rheoli	-1,196	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau Gweinyddu Canolog Eraill: Cam gweithredu Rheoli Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	1,196	Refeniw	Ar gyfer Rheoli Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad: SPA/cam gweithredu Creu'r Cysylltiadau	-500	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau Gweinyddu Canolog Eraill: Cam gweithredu Buddsoddi i Arbed	500	Refeniw	Yng nghyswllt Rhaglen Breguster Gwent
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad: SPA/cam gweithredu Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad	-250	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau a Chyflogau Staff: Cam Gweithredu Costau Staff	250	Refeniw	Ar gyfer Secondiadau Llywodraeth Cymru.

Tabl 6: Trosglwyddiadau rhwng MEGau (parhad)

O	Swm (£000oedd)	I	Swm (£000oedd)	Nat ur	Disgrifiad
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad: SPA/cam gweithredu Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad	-240			Refeniw	Dim manylion ar gael.
		Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau a Chyflogau Staff: Cam Gweithredu Costau Staff	245	Refeniw	Dim manylion ar gael.
		lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; SPA Cyllidebau Canolog lechyd Cefnogi Addysgu a Hyfforddi Gweithlu'r GIG	177	Refeniw	Dim manylion ar gael.
		lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; SPA Gwasanaethau Cymdeithasol Cam gweithredu Cyngor Gofal Cymru	68	Refeniw	Dim manylion ar gael.
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: SPA Cymunedau Diogelach: Cam gweithredu Cydlyniant Cymunedol	-100			Refeniw	Dim manylion ar gael.
		Economi a Thrafnidiaeth: SPA Gwella Trafnidiaeth Integredig (Leol) Cam gweithredu Datblygu Teithio Cynaliadwy	16	Refeniw	Dim manylion ar gael.
PADGOS: SPA Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion: Cam gweithredu Strategaeth Plant a Phobl Ifanc	-145			Refeniw	Dim manylion ar gael.
		PADGOS: SPA Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion: Cam gweithredu Arweiniad ac Effeithiolrwydd mewn Ysgolion	161	Refeniw	Dim manylion ar gael.
PADGOS: SPA Gwella Busnes a Buddsoddi mewn Adnoddau: Cam gweithredu Prosiectau Strategol	-55			Refeniw	Dim manylion ar gael.
Materion Gwledig: SPA Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chefn Gwlad: Cam gweithredu Diwallu anghenion cymunedau gwledig a phrawfesur gwledig	-45			Refeniw	Dim manylion ar gael.
		Materion Gwledig: SPA Polisiâu Gwledig Ewrop: Talu'n unol â rheolau'r UE a Llywodraeth y Cynulliad	60	Refeniw	Dim manylion ar gael.
Materion Gwledig: SPA Polisiâu Gwledig Ewrop: Cam gweithredu cyflawni'r rhaglenni o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig	-16			Refeniw	Dim manylion ar gael.
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau Gweinyddu Canolog Eraill: Cam gweithredu Uned Ystadegau Llywodraeth Leol	-121			Refeniw	Dim manylion ar gael.
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau Gweinyddu Canolog Eraill: Cam gweithredu Digwyddiadau a Chyfathrebu Corfforaethol	-60			Refeniw	Dim manylion ar gael.
		Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: SPA Costau Gweinyddu Canolog Eraill: Cam Gweithredu Datblygu Rhyngwladol	55	Refeniw	Dim manylion ar gael.
Symudiad net	-15,405	Symudiad net	15,405		

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2010-11 (Chwefror 2011)

Sylwer na fydd trosglwyddiadau llai na £250,000 fel rheol yn cynnwys unrhyw fanylion am eu natur.

4. Symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn

Mae nifer o ddyraniadau wedi bod hefyd i'r cronfeydd wrth gefn neu ohonynt, a dangosir y rhain, ar gyfer y cronfeydd refeniw wrth gefn a'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn [nhabl 7](#) ac yn [nhabl 8](#), yn y drefn honno. Ar ôl symud y symiau hyn y manylir yn eu cylch yn y gyllideb atodol, dyma'r gweddill sydd yn y cronfeydd wrth gefn: £0.2 miliwn yn y gronfa refeniw nad yw'n arian parod, a dim gweddill yn y gronfa refeniw wrth gefn hawdd ei thro'i'n arian parod a'r gronfa gyfalaf wrth gefn.

Tabl 7: Symudiadau yn y gronfa refeniw wrth gefn

MEG/SPA/Cam Gweithredu	Hawdd eu troi'n arian parod (£000oedd)	Ddim yn arian parod (£000oedd)	Disgrifiad
Cyllideb Atodol 2010 (Mehefin 2010)	161,819	0	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol			
SPA/cam gweithredu Cyflawni'r GIG	-110,000		Yn ymwneud â phwysau afreolaidd yn sefydliadau'r GIG
SPA/cam gweithredu Cyflawni'r GIG	-208		Trosglwyddiad gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ariannu gofal iechyd mewn carchardai
SPA Gwasanaethau Cymdeithasol Cam gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	-320		Trosglwyddiad gan Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd y Deyrnas Unedig i ariannu'r NSPCC/Childline
SPA/cam gweithredu Cyflawni'r GIG		-39,191	I adlewyrchu pwysau nad ydynt yn arian parod yn y GIG
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol			
SPA Ariannu Llywodraeth Leol: Cam gweithredu Cymorth Ariannol i Lywodraeth Leol	1,000		Cyfraniad at arbedion yn ystod y flwyddyn
SPA Ariannu Llywodraeth Leol: Cam gweithredu Cymunedau yn Gyntaf	2,300		Cyfraniad at arbedion yn ystod y flwyddyn
SPA Ariannu Llywodraeth Leol: Cam gweithredu Cymorth Ariannol i Lywodraeth Leol	6,161		I'w ddychwelyd i Drysorlys EM yng nghyswllt y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes; addasiad technegol.
Economi a Thrafnidiaeth			
SPA Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol): Cam gweithredu Gwella a chynnal rhwydwaith y cefnffyrdd (Llwybrau Domestig)	2,000		Cyfraniad at arbedion yn ystod y flwyddyn
SPA Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol): Cam gweithredu Gwella a chynnal rhwydwaith y cefnffyrdd (Llwybrau Domestig)	-7,085		Pwysau ar gyllidebau cynnal ffyrdd oherwydd tywydd difrifol.
SPA Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol): Gwella a Chynnal Rhwydwaith y Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig) - cam gweithredu nad yw'n arian parod		23,459	Cynrychioli gwarged nad yw'n arian parod.
SPA Gwella Cysylltedd Rhyngwladol: cam gweithredu nad yw'n arian parod		16,541	Cynrychioli gwarged nad yw'n arian parod.
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau			
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: SPAs/camau gweithredu amrywiol	2,971		Cyfraniad at arbedion yn ystod y flwyddyn
SPA Gwella Busnes a Buddsoddi mewn Adnoddau: Cam gweithredu Cyllid ac Ariannu Myfyrwyr	-23,500		I gydnabod y cynnydd yn nifer y myfyrwyr mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch.
SPA Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion: Cam gweithredu Cymorth i Ddysgwyr	-1,500		I ymateb i'r pwysau ar anghenion addysg arbennig ôl 16.
SPA Gwella Busnes a Buddsoddi mewn Adnoddau: Cam gweithredu Cyllid ac Ariannu Myfyrwyr		-81,109	Ar gyfer amariadau i Lyfr Benthyciadau'r Myfyrwyr.

Tabl 7: Symudiadau yn y gronfa refeniw wrth gefn (parhad)

MEG/SPA/Cam Gweithredu	hawdd eu troi'n arian parod (£000oedd)	Ddim yn arian parod (£000oedd)	Disgrifiad
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai;			
SPA Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: /Camau gweithredu amrywiol	3,060		Cyfraniad at arbedion yn ystod y flwyddyn
Materion Gwledig			
SPA/cam gweithredu Gwarchod a Gwella lechyd a Lles Anifeiliaid	5,000		Oherwydd y gwariant is ar y Rhaglen Dileu TB yn ystod y flwyddyn.
SPA Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chefn Gwlad: Rhoi'r strategaeth coetiroedd newydd ar waith drwy gyfrwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru	1,400		Yng nghyswllt incwm ffermydd gwynt.
SPA Diwydiant Bwyd, Pysgod a Diod Cymru: Datblygu, rheoli a gorfodi Pysgodfeydd a dyframaeth Cymru		-160	Talu costau a ddynodwyd yn ystod y flwyddyn.
Treftadaeth			
Treftadaeth: SPAs/camau gweithredu amrywiol	1,000		Cyfraniad at arbedion yn ystod y flwyddyn
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad			
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad: SPAs/camau gweithredu amrywiol	4,900		Cyfraniad at arbedion yn ystod y flwyddyn
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu			
SPA Costau a Chyflogau Staff: Cam gweithredu Costau Staff	3,000		Cyfraniad at arbedion yn ystod y flwyddyn
SPA Costau Gweinyddu Canolog Eraill: Cam gweithredu Costau Etholiadol	-4,530		Yng nghyswllt costau'r refferendwm.
SPA Costau Gweinyddu Canolog Eraill: Cam gweithredu Gweinyddu Cyffredinol	-1,121		Ategu'r cronfeydd sydd ar gael eisoes ar gyfer Cynllun Rhyddhau'n Gynnar.
Newidiadau eraill			
Dychwelyd i Drysorlys EM	-6,161		Yng nghyswllt y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes; addasiad technegol.
Tynnu i lawr EYF	71,547	31,000	
Gostyngiadau refeniw	-113,541		Fel yr oedd yn ofynnol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin 2010.
Trosglwyddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig	208		Trosglwyddiad gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ariannu gofal iechyd mewn carchardai
Cronfa wrth Gefn Trysorlys EM.		50,000	Yng nghyswllt y diffyg yn y llog ar fenthyciadau myfyrwyr oherwydd y gyfradd sylfaen isel - dyraniad untro nad yw'n arian parod.
Comisiwn y Cynulliad	1,600		Ni throsglwyddwyd arian o'r gronfa refeniw i'r gronfa gyfalaf i Gomisiwn y Cynulliad mewn pryd yn unol â'r llinell sylfaen gyda Thrysorlys EM, felly, mae hyn wedi'i wneud drwy'r cronfeydd wrth gefn.
Camddatganiad cronfeydd wrth gefn		-282	Yn adlewyrchu gorddyrannu swm nad yw'n arian parod yng nghyllideb atodol mis Mehefin a'r bwriad o dynnu i lawr EYF i aildafoli.
PSOW		-21	
Cyllideb Atodol 2010-11 (Chwef 2011)	0	237	

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2010-11 (Chwefror 2011)

Tabl 8: Symudiadau yn y gronfa gyfalaf wrth gefn

MEG/SPA/Cam gweithredu	£000s	Disgrifiad
Cyllideb Atodol 2010-11 Mehefin 2010)	27,819	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol		
SPA/Cam gweithredu Cyflawni'r GIG	-13,743	I gynorthwyo gyda phrosiectau cyfalaf sy'n flaenoriaeth.
Economi a Thrafnidiaeth		
SPA Busnesau - Cychwyn, Tyfu, Ffynnu a Buddsoddi: Cam gweithredu Darparu Cymorth i Fusnesau	9,598	Yn cynrychioli ad-daliadau ar fenthyciadau yn ystod y flwyddyn gan Cyllid Cymru PLC.
Economi a Thrafnidiaeth: SPAs/camau gweithredu amrywiol	-51,600	Dyraniadau SCIF
SPA Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) Cam gweithredu Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (Rheilffyrdd)	-3,500	
SPA/Cam gweithredu Gwella Cysylltedd Rhyngwladol	-3,000	
SPA Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol): Cam gweithredu Gwella a chynnal rhwydwaith y cefnffyrdd (Llwybrau Domestig)	-1,800	
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau		
SPA Gwella Busnes a Buddsoddi mewn Adnoddau: Arian cyfalaf	-16,743	£5m ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion; £8m ar gyfer cynnal a chadw ac adnewyddu ysgolion a £3.743m ar gyfer cynnal a chadw sefydliadau Addysg Bellach.
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai		
SPA Tai: Cam gweithredu cynyddu'r cyflenwad tai a'r dewis sydd ar gael	-3,000	Ymddiriedolaeth Buddsoddi Tai Cymru.
SPA Tai: Cam gweithredu cynyddu'r cyflenwad tai a'r dewis sydd ar gael	-1,743	Rhaglen Gofal Ychwanegol
SPA Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd Cam gweithredu Datblygu polisi a deddfwriaeth ym maes perygl llifogydd ac arfordirol, dŵr a charthffosiaeth	-800	Amddiffyn rhag llifogydd.
SPA Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd Cam gweithredu datblygu a rhoi ar waith bolisi, cyfathrebu, deddfwriaeth a rheoleiddio ym maes newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd.	-2,900	Effeithlonrwydd ynni.
Materion Gwledig		
SPA Polisiau Gwledig Ewrop: Cam gweithredu cyflawni'r rhaglenni o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig	3,000	Canlyniad gwario llai ar gynlluniau cyfalaf o dan y Cynllun Datblygu Gwledig.
Treftadaeth		
SPA/cam gweithredu i gynorthwyo a chynnal sector cryf yn y celfyddydau drwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill	-18,500	Prosiectau SCIF
SPA Twristiaeth: Datblygiad Profiad yr Ymwelydd	-1,000	Ar gyfer Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth
SPA Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd: Meithrin Defnydd a Dysgu Gydol Oes drwy weithredu yn y Gwasanaethau Amgueddfeydd	-1,000	Ar gyfer gwaith brys ar seilwaith San Ffagan.
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad		
SPA/cam gweithredu Arian Cyfatebol	5,000	Tanwario Adrannol
Newidiadau eraill		
Tynnu i lawr EYF	124,519	
Gostyngiadau cyfalaf	-49,007	Yn unol â gofynion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin 2010.
Comisiwn y Cynulliad	-1,600	Ni throsglwyddwyd arian o'r gronfa refereniw i'r gronfa gyfalaf i Gomisiwn y Cynulliad mewn pryd yn unol â'r llinell sylfaen gyda Thrysorlys EM, felly, mae hyn wedi'i wneud drwy'r cronfeydd wrth gefn.
Cyllideb Atodol 2010-11 (Chwef 2011)	0	

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2010-11 (Chwefror 2011)

5. Gostyngiadau gwario a orfodir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig

Ym mis Mai 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bod yn bwriadu gwario £6.2 biliwn yn llai yn ystod 2010-11.¹⁴ Rhoddwyd dewis i Lywodraeth Cymru ac i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, ohirio'u cyfran o'r gostyngiadau hyn tan 2011-12. Mewn datganiad ym mis Gorffennaf 2010¹⁵, eglurodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt AC) mai cyfanswm y gostyngiad a orfodid ar Gymru yn sgil y toriadau fyddai £162.5 miliwn (£113.5 miliwn refeniw a £49 miliwn cyfalaf). Roedd y datganiad hefyd yn dweud:

...yr ydym wedi penderfynu cymryd cymaint ag y gallwn o'r gostyngiadau yng nghyllideb 2010-11 eleni, **ond** yr ydym yn gwneud hyn heb dynnu arian oddi wrth ein prif flaenoriaethau polisi ac yn enwedig heb gymryd risgiau gyda'r adferiad economaidd bregus.¹⁶

Adeg y gyllideb ddrafft, tybid mai 50 y cant yn unig o'r £113.5 miliwn refeniw y llwyddid i'w dorri yn 2010-11, ac y deuid o hyd i'r gweddill yn 2011-12. Serch hynny, roedd cyllideb derfynol 2011-12 yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ganfod yr arbedion refeniw i gyd, sef £113.5 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2010-11.¹⁷ Mae hyn yn golygu bod refeniw ychwanegol, £56.8 miliwn, ar gael yn y gyllideb derfynol o'i gymharu â'r hyn a oedd yn y gyllideb ddrafft.

Roedd dogfen naratif y Gyllideb Derfynol yn dweud:

...rydym wedi penderfynu defnyddio'r £56.77 miliwn a ryddhawyd yn sgil ein rheolaeth ariannol ofalus eleni er mwyn lleihau effaith y gostyngiad yn y gyllideb cyfalaf yn 2011-12. Bydd y swm hwn yn cael ei gadw mewn Cronfeydd Wrth Gefn I gychwyn, a chaiff ei ddyrannu yn ystod y flwyddyn.¹⁸

Mae'r gyllideb atodol yn cadarnhau y llwyddwyd i arbed y £49 miliwn o arbedion cyfalaf drwy ddefnyddio'r EYF gan arbed y £113.5 o'r cronfeydd refeniw ym mlwyddyn ariannol 2010-11. Dywed y naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol:

Yn sgil rheolaeth ariannol ofalus, rydym wedi gallu dod o hyd i'r gostyngiad llawn o £113.5 miliwn refeniw eleni, heb effeithio ar wasanaethau. Adeg llunio'r Gyllideb Ddrafft, gwnaethom ragdybiaeth ddarbodus mai dim ond 50% o'r gostyngiad refeniw y byddem yn dod o hyd iddo yn 2010-11. Drwy ddod o hyd i'r holl ostyngiad refeniw eleni, bydd gennym £56.77 miliwn yn ychwanegol yn 2011-12. Mae hyn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd inni at y dyfodol, a'r cyfle i liniaru'n rhannol ar y gostyngiad mawr iawn yn ein cyllideb cyfalaf yn 2011-12.¹⁹

O ran y £113.5 miliwn o arbedion refeniw, llwyddwyd i sicrhau'r gostyngiadau a ganlyn mewn meysydd portffolio megis 'cyfraniad at arbedion o fewn y flwyddyn' (mae'r rhain i'w gweld yn [nhabl 7](#) sy'n dangos symudiadau yn y gronfa refeniw wrth gefn):

¹⁴ Trysorlys EM, [Reducing the Government deficit](#), 24 Mai 2010 [cyrchwyd 3 Chwefror 2011]

¹⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jane Hutt (Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb) [Gwariant yn ystod y flwyddyn](#), Un o Ddatganiadau Llafar y Cabinet, 13 Gorffennaf 2010. [cyrchwyd 3 Chwefror 2011]

¹⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jane Hutt (Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb) [Gwariant yn ystod y flwyddyn](#), Un o Ddatganiadau Llafar y Cabinet, 13 Gorffennaf 2010. [cyrchwyd 3 Chwefror 2011]

¹⁷ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Derfynol 2011-12](#), 1 Chwefror 2011 tud 3 [cyrchwyd 3 Chwefror 2011]

¹⁸ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Derfynol 2011-12](#), 1 Chwefror 2011 tud 3 [cyrchwyd 3 Chwefror 2011]

¹⁹ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2011-12](#), Chwefror 2011 tud 5 [cyrchwyd 11 Chwefror 2011]

- Cyfrannodd Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol £3.3 miliwn;
- Cyfrannodd Economi a Thrafnidiaeth £2 filiwn;
- Cyfrannodd Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes £3 miliwn;
- Cyfrannodd yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai £3 miliwn;
- Cyfrannodd Treftadaeth £1 filiwn;
- Cyfrannodd Materion Gwledig £6.4 miliwn;
- Cyfrannodd Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad £4.9 miliwn;
- Cyfrannodd Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu £3 miliwn.

Felly, cyfanswm y cyfraniadau gan y portffolios yw £26.6 miliwn, ac ynghyd â'r £71.5 miliwn 'hawdd ei droi'n arian parod' a dynnwyd i lawr o'r EYF, y cyfanswm yw £98.1 miliwn, sy'n gadael diffyg o £15.4 miliwn. Defnyddiwyd y gronfa referniwrth gefn i wneud iawn am y diffyg hwnnw.

6. Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol

Mae'r gyllideb atodol yn dyrannu £70.1 miliwn i brosiectau'r SCIF fel a ganlyn:

- Treftadaeth - £18.5 miliwn i'r prosiectau hyn:
 - £3.5 miliwn i Oriel Gelf Glynn Vivian
 - £15 miliwn Ganolfan Gelfyddydau a Diwylliannol Pontio ym Mhrifysgol Bangor
